

Fframwaith Negeseuon Craidd

Mae'r fframwaith hwn yn helpu sefydliadau hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Defnyddiwch y ddogfen hon gyda'r Canllaw ar greu Cynllun Cyfathrebu Mewnol.

Pwrpas y fframwaith

Mae'r fframwaith hwn yn cynnig set fer o negeseuon craidd, cyffredinol y gall unrhyw sefydliad eu mabwysiadu a'u haddasu i'w cyd-destun eu hunain (gweler Cam 3 y Canllaw ar greu Cynllun Cyfathrebu Mewnol). Nod y negeseuon yw gosod tôn gyson, gadarnhaol ar gyfer pob darn o gyfathrebu am y Gymraeg yn fewnol, waeth beth yw maint na natur y sefydliad.

Negeseuon craidd

Dewiswch ddim mwy na thua phum neges graidd i reolwyr ac arweinwyr eu defnyddio a'u hatgyfnerthu'n gyson. Gallwch addasu'r enghreifftiau isod i weddu i'ch sefydliad.

1	Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb – ac mae hynny'n wir yn ein sefydliad ni hefyd
2	Mae pob defnydd o'r Gymraeg yn helpu i greu gweithle dwyieithog
3	Ein nod yw bod yn sefydliad dwyieithog lle mae croeso i bawb ddefnyddio cymaint o Gymraeg ag y dymunant
4	Does dim rhaid i'ch Cymraeg fod yn berffaith – mae pob ymgais yn cyfri, ac yn cael ei gwerthfawrogi
5	Byddwn yma i'ch cefnogi – beth bynnag yw eich lefel o Gymraeg
6	Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth greu diwylliant lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o'n gwaith bob dydd
7	Mae defnyddio'r Gymraeg yn gyfle – ac mae pob cam bach yn gwneud gwahaniaeth
8	Mae'r Gymraeg yn sgil gwerthfawr sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol a phroffesiynol
9	Mae defnyddio'r Gymraeg yn helpu i wella ein gwasanaethau a'r profiad i ddefnyddwyr

Sut i addasu'r negeseuon ar gyfer eich sefydliad

Defnyddiwch y canllaw i greu cynllun cyfathrebu mewnol i adnabod eich cynulleidfaoedd, eich sianeli cyfathrebu a'r cyfleoedd i atgyfnerthu'r negeseuon craidd.

- Cadwch ystyr a naws pob neges, ond newidiwch y geiriad i adlewyrchu diwylliant, maint ac arddull cyfathrebu eich sefydliad chi.
- Ceisiwch wneud y negeseuon yn berthnasol i gydweithwyr drwy eu cysylltu i waith neu rôl eich sefydliad a gwerth cymdeithasol y Gymraeg
- Ychwanegwch enghreifftiau neu straeon lleol (gweler Cam 7 y Canllaw) er mwyn gwneud y negeseuon yn fwy perthnasol i chi a'ch staff.
- Addaswch bwyslais neges unigol ar gyfer cynulleidfaoedd penodol (Cam 2 a Cham 4 y canllaw) heb newid hanfod y neges graidd ei hun. Er enghraifft, ar gyfer staff rheng flaen, canolbwyntiwch ar sut mae'r neges yn berthnasol i'w gwaith o ddydd i ddydd a'r hyn y gallant ei wneud yn ymarferol.
- Sicrhewch fod arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn defnyddio'r un negeseuon yn gyson, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Adolygwch y negeseuon o bryd i'w gilydd i adlewyrchu adborth staff a chanfyddiadau monitro (gweler Cam 9 y canllaw).

Tôn llais

Ceisiwch ddefnyddio tôn llais eich sefydliad wrth baratoi a rhannu negeseuon yn fewnol. Gallwch ddefnyddio egwyddorion isod wrth addasu'r negeseuon:

- Cynnes a chroesawgar – byth yn feirniadol ac yn osgoi rhoi pwysau neu ddisgwyliadau afrealistig ar staff.
- Cadarnhaol a dathlu – canolbwyntio ar y cyfleoedd a'r buddion sy'n dod o ddefnyddio'r Gymraeg, gan ei chyflwyno fel rhywbeth i'w rannu a'i fwynhau, nid fel baich neu ofyniad.
- Cynhwysol – o ddysgwyr newydd i siaradwyr rhugl, a phawb sydd eto i weld eu hunain fel defnyddwyr o'r Gymraeg.
- Clir a syml – defnyddio iaith glir, brawddegau byr, ac osgoi jargon.
- Cyson – ailadrodd yr un negeseuon craidd, ar draws pob sianel ac ar bob lefel o'r sefydliad.

Wrth gyfieithu, sicrhewch fod cyfieithwyr yn gwybod sut mae eich sefydliad yn siarad am y Gymraeg yn Gymraeg ac yn Saesneg.